**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 2 Gorffennaf 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, S.Rees, C.Morris, C.Furlow-Harris, A.Manchipp, S.Curran, T.Davies, C.Davies, C.Plowman, and J.Woodman-Ralph |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y cyngor y byddai ef, Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr Cynorthwyol a Phenaethiaid Gwasanaeth yn datgan eu buddiannau yn adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol ar Ddatganiad Polisi Tâl 2020/2021 ac yn gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny.

## 2. MYNEDIAD AELODAU I GYFARFODYDD

Mynegwyd pryder bod rhai aelodau o’r cyngor yn cael anhawster wrth gael mynediad i gyfarfodydd o bell drwy *Microsoft Teams* ac y gallai hyn effeithio ar bresenoldeb aelodau yn unol â’r rheol chwe mis sy'n gynwysedig yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod. Byddai swyddogion yn ystyried hyn yn y dyfodol ac yn parhau i ddarparu cymorth i aelodau.

## 3. TREFNIADAU PLEIDLEISIO O GANLYNIAD I BRESENOLDEB O BELL

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r protocol ar gyfer pleidleisio, fel y nodir isod, am y cyfnod y cynhelir cyfarfodydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o bell a rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ddiwygio'r cyfansoddiad yn briodol i gynnwys hyn:

- Bydd y Cadeirydd yn darllen yr argymhellion o flaen yr aelodau (neu'n cyfeirio at rif tudalen yr adroddiad lle mae'r argymhelliad i'w gael).
- Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelodau a oes unrhyw aelodau sydd am wrthwynebu'r argymhelliad, gan ddarparu cyfnod o oedi addas i ganiatáu i aelodau ymateb yn briodol - gallant wneud hynny naill ai trwy gyfleu'r gwrthwynebiad ar lafar, gan ddefnyddio'r cyfleuster ‘codi llaw’ ar *Microsoft TEAMS* neu drwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar *Microsoft TEAMS*.
- Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelodau a oes unrhyw aelodau sydd am ymatal ar yr argymhelliad, gan ddarparu cyfnod o oedi addas i ganiatáu i aelodau ymateb yn briodol - gallant wneud hynny naill ai trwy gyfleu'r gwrthwynebiad ar lafar, gan ddefnyddio'r cyfleuster ‘codi llaw’ ar *Microsoft TEAMS* neu drwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio ar *Microsoft TEAMS*.
- Yn dilyn hyn, tybir bod unrhyw aelodau nad ydynt wedi nodi i'r gwrthwyneb, o blaid yr argymhelliad.
- Yna, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a yw'r argymhelliad wedi'i gymeradwyo ai peidio.
- Os na all y Cadeirydd gadarnhau bod modd clywed pob aelod neu ei fod o'r farn bod angen galw rhestr enwau i sicrhau y cydymffurfir â'r broses ddemocrataidd, bydd gan y Cadeirydd yr hawl i alw rhestr enwau yr holl aelodau i gadarnhau eu pleidlais.

- Os bydd y Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd neu'r Swyddog Monitro o'r farn nad yw'r aelodau wedi cael eu clywed, byddant yn cynghori'r Cadeirydd y dylid galw rhestr enwau o'r holl aelodau i gadarnhau eu pleidlais. Bydd y disgresiwn terfynol ynghylch a ddylid galw rhestr enwau o'r fath yn parhau i fod yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.
- I osgoi amheuaeth, ni fyddai'r protocol diwygiedig hwn yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Trwyddedu neu Gynllunio (nac unrhyw is-bwyllgorau) oherwydd yr angen i fynd i'r afael â materion ychwanegol fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau yn y cyfarfodydd hynny (h.y. yr angen i sefydlu bod aelod wedi clywed pob elfen o'r ddadl cyn dod i benderfyniad).

  Dylid nodi y bydd aelodau hefyd yn gallu gofyn am bleidlais gofnodedig yn unol â gofynion cyfansoddiad y cyngor.

## 4. GWEDDARLLEDU A NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL

Esboniodd Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd gefndir y gwaith a wnaed gan y pwyllgor cyn cychwyniad COVID-19. Addaswyd y gwaith hwn o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a gofynnwyd i'r aelodau ystyried y newidiadau sy'n gynwysedig yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r gwaith a wnaed gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddatblygu'r gwaith a roddwyd iddo ym mis Gorffennaf 2019 - i gyflwyno gweddarlledu o gyfarfodydd y cyngor a gwella cyfranogiad y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd;

2. Nodi effaith sefyllfa frys COVID-19 ar yr argymhellion a baratowyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â gweddarlledu cyfarfodydd y cyngor ac, fel sefyllfa dros dro, y dylid nodi'r newidiadau i'r rheolau sefydlog sy'n gynwysedig yng nghyfansoddiad y cyngor i ganiatáu recordio cyfarfodydd y cyngor, cyhoeddi'r recordiadau hynny a ffrydio cyfarfodydd yn fyw;

3. Rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol i'r cyfansoddiad sy'n codi o gymeradwyo argymhellion 1 a 2 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2011-2026**

Derbyniodd y cyngor adroddiad Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn perthynas â Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i argymell i'r cyngor gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2020.

Mynegwyd pryder bod y tywydd gwael ar ddechrau'r flwyddyn a chyfyngiadau symud COVID- 19 wedi atal aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid rhag cyfrannu at y broses ymgynghori. Byddai pwysigrwydd mewnbwn aelodau i'r broses yn cael ei amlygu yn y Cytundeb Cyflawni. Nodwyd y byddai'r broses i ddatblygu CDLl newydd yn cymryd tair blynedd a hanner ac y byddai'r CDLl cyfredol yn parhau i fod yn ei le nes bod y fersiwn newydd wedi'i mabwysiadu.

Mewn perthynas â chyfyngiadau symud COVID-19, teimlwyd bod hyn wedi amlygu pwysigrwydd lleoliaeth, ysbryd cymunedol, gwella hygyrchedd i'r cymoedd ar gyfer y cyhoedd a'r amgylchedd. Cytunodd aelodau fod angen i'r cynllun fod yn hyblyg a nodwyd y byddai hyblygrwydd y cynllun yn cael ei asesu fel rhan o'r profion cadernid.

Derbyniodd yr aelodau sicrwydd y byddai polisïau mewn perthynas â Thai Amlbreswyl (HMO's) yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Mewn perthynas â datblygiadau tai bach, nodwyd nad oedd rhai datblygiadau wedi ymddangos eto a bod hyn efallai oherwydd materion dichonoldeb. Cynhelir adolygiad o nifer yr aneddiadau a'u ffiniau hefyd. Nodwyd bod y gallu i gyflwyno hefyd yn brawf o gadernid y cynllun.

Mae cyfyngiadau symud COVID-19 wedi arwain at lawer o bobl yn gweithio gartref a'r gobaith oedd y gallai hyn barhau ar ôl y cyfyngiadau symud gan arwain at fwy o gyflogaeth yn ardaloedd y cymoedd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r ymatebion a'r argymhellion i'r sylwadau a dderbyniwyd, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, a bod yr Adroddiad Adolygu terfynol, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo.

6. **DATGANIAD POLISI TÂL**

(Ailddatganodd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd eu buddiannau yn yr eitem hon, gan adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny).

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/2021, fel y'i nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'w gyhoeddi ar wefan y cyngor.

7. **EITEMAU BRYS**

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor ddau ddatganiad fel a ganlyn:

Mae Bywydau Du o Bwys

Mae llofruddiaeth greulon George Floyd ar 25 Mai 2020 wedi achosi protestiadau rhyngwladol, a hynny'n iawn.

Dwi'n siŵr bod y digwyddiad hwn wedi brawychu holl aelodau'r cyngor ac y byddwch i gyd yn ymuno â mi i gondemnio'r hyn a ddigwyddodd.

Mae llofruddiaeth George Floyd, sgandal Windrush ynghyd â digwyddiadau eraill yn ein hanes diweddar yn dangos, er gwaetha'r holl ymrwymiadau a wnaed i gyflawni cydraddoldeb hiliol ar draws cymdeithas, mae agweddau ac ymddygiad hirsefydlog tuag at bobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn bodoli o hyd, ac ni all hyn barhau.

Mae hyn yn arbennig o amlwg ar hyn o bryd pan fod pobl o gefndiroedd du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn chwarae rôl hanfodol mewn ymateb i argyfwng COVID-19 - yn aml ar y rheng flaen - ac ar yr un pryd, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y clefyd, sy'n destun pryder.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn heddiw i gyflwyno gogwydd newydd ar sut rydym yn gweithio gyda'n cymunedau du, asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot i gyflawni cydraddoldeb, ecwiti a chydlyniant cymdeithasol.

Fel cynghorwyr etholedig, rhaid i ni ddangos arweiniad wrth gyflwyno’r newid cymdeithasol sydd ei angen, a dangos bod bywydau du o bwys.

Digwyddiad ym Mlaendulais

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r gwasanaethau brys, staff y cyngor ac aelodau'r gymuned a helpodd i achub mam a'i dau blentyn o'u cartref yn dilyn y ffrwydrad nwy dinistriol ym Mlaendulais.

Eiliwyd hyn gan aelod ward yr ardal.

**CHAIRPERSON**